# YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
1910—1935.
BRWDFRYDEDD.
CYRDDAU Y PASG.
ADOLYGIADAU.
PRIODAS. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxv. | Mai, 1935 | Rhif 5

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

# YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

---

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.


LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

*Gan IDWAL JONES.*

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

# YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

*Golygydd : Y Parch. T. L. JONES*

CYFROL XXXV. MAI, 1935. RHIF 5

## "DOS I'TH YSTAFELL—."

YR ydym bellaf oddiwrth Dduw pan y methwn ei weled yn ein cyd-ddynion.—LUCY LARCOM.

* * *

HWYR neu hwyrach bydd y gwirionedd yn sicr o ymddangos o'n blaen, beth bynnag wnawn i geisio osgoi y cyfarfod. O glywed sŵn ei droed yn dyfod, gwell paratoi ar unwaith, a chwrdd ag ef wyneb yn wyneb.—YR ARGLWYDD LYTTON.

* * *

NID oes angen udgorn ar feddyliau mawr yn fwy nag ar weithredoedd mawr.—BAILEY.

* * *

METHIANT yw pob un ohonom,—neu o leiaf y goreu o honom.—SYR JANES BARNE.

* * *

Y FATH ynfyd yw dyn, i gofio unpeth ddigwyddodd fwy nag wythnos yn ôl, os na fydd y peth a gofir yn ddymunol, neu o ryw ddefnydd iddo.—SAMUEL BUTLER.

* * *

MAE Cymdeithas wedi ei siomi yn fawr am iddi obeithio, ond iddi geisio yn gyntaf am bethau rhad, y rhoddid yr holl bethau eraill iddi yn ychwaneg.—SYR WILLIAM ASHLEY.

* * *

DYLAI pobl gael eu dysgu, ond iddynt gadw eu meddyliau yn agored pan yn ieuanc, y cadwant yn agored bob amser, ac nad yw henaint ond gwyliau haf.—MAUDE ROYDEN.

* * *

NID oes gan y wenynen ddiwyd amser i ofidio.—WILLIAM BLAKE.

* * *

ARGLWYDD Hollalluog, bendithia ein teyrnas a'n hymerodraeth, fel y byddo i Grefydd a Rhinwedd dymheru ein pobl,—fel y byddo Heddwch o fewn ein pyrth a hawddfyd o fewn ein terfynau. Tywys ni yn amser adfyd, ac na ad i ni dy anghofio Di yn amser heddwch. Mewn hawddfyd a drygfyd, . . . bydded i ni mewn amynedd a thangnefedd geisio dy deyrnas Di a'i chyfiawnder hi, yr hon yw sylfaen sicr dynion a gwledydd. Bydded i ni felly fyw yn bobl i'th wasanaethu Di hyd derfyn amser.—ARCHESGOB LAUD (1573-1645).

# Nodiadau'r Golygydd.

DIDDOROL bob amser yw gwrando beth sydd gan arweinwyr y gwahanol enwadau i ddweyd mewn cynadleddau a chyfarfodydd arbennig pan yn ymdrin â phynciau pwysig enwad a chrefydd. Yn ystod y mis aeth heibio dywedwyd dau beth o leiaf gan arweinwyr yr enwadau Cymreig sydd yn haeddu sylw, ac fe fu cryn dipyn o ddadleu yn eu cylch yng ngholofnau'r wasg.

Yng nghyfarfodydd y Methodistiaid yn Nhalgarth, Sir Frycheiniog buwyd yn ymdrin â phwnc sydd wedi cael llawer o sylw mewn cynadleddau lawer,—y berthynas rhwng Crefydd a Dysg. Ymosodwyd yn chwerw gan ddau o hynafiaid enwocaf yr enwad ar yr hyn ystyriant hwy yw'r pwyslais a'r parch gormodol roddir i ragoriaethau athrofaol pan yn ystyried cymhwysder myfyriwr i fod yn weinidog yr efengyl. Mae gormod o addoli graddau, dyna'r awgrym. Efallai pe byddent wedi bodloni ar ddweyd hyna, na fyddai'r cynnwrf gymaint. Mae'n wir fod ambell i ymosodiad ar wŷr y graddau yn peri i ni gofio stori y llwynog a'r grawnwin surion, ond ar y llaw arall, byddai pob gŵr gradd synhwyrol yn barod i addef nad yw gradd yn gwneyd i fynu am ddiffyg cymwysderau eraill gyfrifir yn angenrheidiol i bregethwr a gweinidog. Ond yr oedd yna awgrym pellach fod dysg ynddi ei hun yn gwneyd y gŵr dysgedig yn llai effeithiol fel gweinidog yr efengyl. Dyma'r frawddeg finiog—" Mae myfyrwyr sydd yn gadael ein colegau yn fwy eu diddordeb yn yr ymchwil am y gwirionedd nag mewn achub eneidiau."

Teg yw adrodd fod amryw o fewn yr enwad Methodistiaid ei hun wedi protestio'n gryf yn erbyn awgrym y frawddeg hon fod brwdfrydedd dros y gwirionedd yn rhwystr yn hytrach nag yn help i achub eneidiau. Calon y gŵyn, gallwn dybio, yw fod dyn o wybod gormod yn methu bod mor danllyd o sicr ynghylch rhai o hen bethau sicr y tadau. Mae hyn yn wir ; amhosibl yw dychmygu am ŵr ieuanc wedi manteisio fel y dylai ar y blynyddoedd roddodd radd iddo, yn pregethu gyda grym a sicrwydd a sŵn y tadau, y pethau dybient hwy oedd yn angenrheidiol i achub eneidiau.

Ond ni wnai holl hyawdledd yr hen bregethwyr, os oedd wedi ei seilio ar unrhyw beth heblaw'r gwirionedd, ond caethiwo enaid. Mae'n amhosibl meddwl i Dduw roddi y syched am wirionedd yn enaid dyn, a gwneyd i'w iechydwriaeth yn y pen draw ddibynnu ar ei fod yn gwadu'r gwirionedd. Ond fel mae'n berffaith amlwg, nid yw yr hynafgwyr Methodistaidd ond yn dilyn ffasiwn sydd wedi dod yn wir boblogaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn.

Nid oes gan Hitler fawr ffydd mewn gwirionedd a rheswm chwaith. Mae yntau yn ceisio achub enaid cenedl drwy ysgrechian a bygwth nes eu parlysu i ufudd-dod dall. Wel, hynafgwyr oeddent, ac efallai wedi'r cyfan nad yw hyawdledd cynadleddau i'w gymeryd yn rhy ddifrifol. Ond ni ellir ond gofidio am bob gair segur sydd yn cynorthwyo i ledaenu y gagendor sydd eisioes rhwng y pwlpud a meddwl yr oes.

* * *

Bu rhyw gymaint o ddadleu chwerw am rywbeth ddywedwyd gan Dr. E. Griffith Jones, cyn brif-athro Coleg yr Annibynwyr yn Bradford. Protestiai efe yn erbyn yr Eglwys Esgobol yng Nghymru yn galw ei hun " Yr Eglwys yng Nghymru ". Gŵyr Dr. Griffith Jones yn dda, wrth gwrs, mai lleygwr yw ef a phob gweinidog arall yng ngolwg yr Eglwys Esgobol, ac nad yw capeli a chynulleidfaoedd Ymneillduol yn " eglwysi " yng nghyflawn ystyr y gair. Efallai nad oes rhyw bwysigrwydd mawr mewn enwau ; o feddwl am gryfder cymharol Ymneillduwyr a'r Eglwysi Esgobol yn y mwyafrif mawr o drefi a phentrefi Cymru, gellid meddwl y cytunai yr Eglwyswr mwyaf pybyr fod y teitl " *Yr* Eglwys yng Nghymru " yn un eithaf anghymwys. Annoeth oedd y dewisiad o'r teitl ar y dechreu, a hawdd yw cydymdeimlo â phrotest Dr. Griffith Jones.

* * *

Yng nghyfarfodydd Undeb y Bedyddwyr yn Plymouth, cawd araith rymus gan y Llywydd newydd. Dywedodd, ar ôl General Smuts, mai ofn a diffyg ffydd mewn rhyddid personol oedd yn gyfrifol am gyflwr y byd heddiw. " Mae hyn," meddai, " yn hollol groes i efengyl Crist. Dim ond ffydd newydd yn santeiddrwydd pob enaid dynol all ddileu ofn ac ail greu ffydd mewn rhyddid."

Dywedodd ymhellach, fod enwad y Bedyddwyr â gwell trefn arnynt ac yn gyfoethocach nag ar un amser yn ei hanes, ac eto " Mae'r eglwysi yn ddi-galon, y gweinidogion yn isel eu hysbryd ac yn anesmwyth, a'r aelodaeth yn lleihau. Ai nid ydym yn rhy fydol yn ein heglwysi ? Ai nid ydym wedi gadael i waith blaenaf Iesu a'i ddisgyblion gael ei osod yn y cysgod gan bethau eraill,—pethau digon defnyddiol yn eu lle ? "

Yn ddiweddarach dywedai ysgrifennydd yr Undeb ei fod ymhell o fod yn sicr fod y llanw oedd wedi rhedeg yn erbyn yr Eglwys cyhyd wedi troi. " Ond," meddai, " camgymeriad ydyw gosod gormod o bwys ar nifer. I'r ychydig yr apeliodd Cristionogaeth erioed, ac ni ddylid ei chondemnio am hynny. Er i ni gredu

mewn gweriniaeth, dylem gael gwared o'r syniad fod y dyrfa yn iawn."

Fe'n temtir ni i gyd i gysuro ein hunain gyda rhyw feddyliau cyffelyb ar droion. Ond gobeithio ein bod yn sicr fod yr eglwysi yn methu "apelio" heddiw am yr un rheswm ag oedd Cristnogaeth foreu yn amhoblogaidd,—am fod y safon yn rhy wirioneddol uchel. Wedi'r cyfan gwir bwrpas yr Eglwysi yw efengyleiddio *y byd*, ac mae cryn berygl mewn bod yn rhy wawdlyd o'r "dyrfa". Gall y dyrfa droi yn ôl a dweyd ein bod ninnau yn glaear, a thaflu geiriau celyd yr Iesu am y Phariseaid i'n wynebau.

* * *

O daflu golwg fel hyn dros helyntion y gwahanol enwadau a gwrando beth sydd gan eu harweinwyr i ddweyd ar bynciau byw y dydd fe'm temtir i ofyn,—Ai nid oes gennym ni fel Undodiaid yng Nghymru rywbeth i ddweyd ambell waith ar bynciau o ddiddordeb a phwysigrwydd cyffredinol? Pe deuai rhyw sylwedydd craff i mewn i un o'n cyrddau cwarter neu ein cyrddau blynyddol byddai yn rhwym o deimlo mai cyrddau pregethu yn bennaf ydynt, ac mai ein helyntion bach teuluaidd sydd yn hawlio ein sylw i gyd yn ein pwyllgorau.

Gan nad beth feddyliai am ansawdd y pregethu, byddai yn rhwym o feddwl y buasai llawer mwy o fywyd yn y cyfarfodydd pe troid un o'r cyrddau pregethu yn gynadledd lle y ceid awyrgylch wahanol ac ymgais efallai i drin problemau pwysig yn eofn ac yn onest.

Cwestiwn arall awgryma ei hun i ni yw hwn,—A oes unrhyw reswm digonol dros fod y ddwy gymdeithas Undodaidd yng Nghymru gymaint dieithriaid i'w gilydd. Mae cwestiwn iaith efallai yn rhwystr, ond efallai, y daw o werth i ni yn fuan i ystyried y posibilrwydd o gynnal cwrdd a chynhadledd undebol, pe ond unwaith mewn dwy flynedd. Bychan ydym mewn nifer ond nid oeddem yn lluosocach, nac efallai mor lluosog pan oedd gan ein henwad ddylanwad gwirioneddol ar fywyd a meddwl crefyddol yng Nghymru. Ai nid yw yn werth gofyn o ddifrif,—A ydym yn hollol fodlon ar yr hyn sydd wedi ei wneyd, ac ar yr hyn a wneir gennym fel enwad yng Nghymru?

* * *

Hwyrach fod llawer o Undodiaid Sir Aberteifi yn cofio am Dr. Copeland Bowie yn ymweled â'r eglwysi yn y sir flynyddoedd yn ôl. Efe oedd ysgrifennydd y British and Foreign Unitarian Society y pryd hwnnw. Diddorol yw clywed fod Dr. Bowie yn bedwar ugain oed ar y bumed o Ebrill. Anfonwyd llythyr o

longyfarchiadau iddo gan nifer o Undodiaid fu yn cydweithio ag ef yn yr hen gymdeithas.

* * *

Bu gwasanaeth ar Sul y Pasg i ddyrchafu Syr Thomas More a'r Cardinal John Fisher i restr seintiau yr Eglwys Gatholig. Dyma'r ddau Brydeiniwr cyntaf mae'n debyg i gael eu gwneyd yn seintiau oddiar y Diwygiad Protestanaidd. Yn 1535 gwrthododd More a Fisher gydnabod y Brenin Harri'r Wythfed fel Unig Ben Eglwys Loegr. Dienyddiwyd hwy yr un flwyddyn. Yr oedd More yn ysgolor mawr, a chofir ef fynychaf am iddo ysgrifennu "Utopia", llyfr yn disgrifio y gymdeithas ddelfrydol,—y byd a'i bobl fel y dylai fod. Ysgrifennwyd y llyfr yn Lladin, ac ni thybiwyd yn ddoeth ei gyhoeddi yn Lloegr tra yr oedd More yn fyw.

Yn Utopia gweithiai pob un naw awr bob dydd, a chai am hynny ddigonedd o angenrheidiau bywyd. Casheid rhyfel gan drigolion Utopia, ni fynnent ymladd ond i amddiffyn eu gwlad eu hun. "Yn wahanol i arferiad pob cenedl arall, ni chyfrifent un peth yn fwy yn erbyn gogoniant na'r gogoniant enillid mewn rhyfel." Yr oedd pobl Utopia yn rhydd i addoli fel y mynnent, "oherwydd nid yw yng ngallu dyn i gredu fel y mynno." Ond nid oedd More ei hun yn gallu bod mor eangfrydig a hyn mewn ymarferiad. Ymosododd ar Tyndale am iddo gyfieithu y Beibl i'r Saesneg. Daliai fod y cyfieithad yn ymosodiad ar y ffydd Gatholig.

* * *

Am ryw reswm neu gilydd bu cryn sôn yn y papurau eleni am ddathlu deuddeg-can-mlwyddiant y dyn enwog a adnabyddir fel "The Venerable Bede". Mynach oedd Bede, enwog am ei ddysg, ac fel awdurdod ar hanesyddiaeth eglwysig. Yn ei lyfr enwocaf cawn yr oll a wyddom bron o'n gwybodaeth am hanes boreaf yr ynys hon. Cafodd ef ei ffeithiau yn rhannol o lyfrau yr ysgrifenwyr Rhufeinig o'i flaen ac yn rhannol o hen draddodiadau oedd ar lafar. Ysgrifennodd Bede yn Lladin, a chyfieithwyd ei lyfr i'r Saesneg gan y Brenin Alfred. Bu farw yn 735.

* * *

Mae cyfnewid mawr wedi dod dros y berthynas rhwng y wlad hon a Rwsia yn ddiweddar. Mae lle i gredu fod rheolwyr Rwsia eu hunain wedi cyfnewid yn fawr yn eu hagwedd at wledydd eraill y byd. Ond efallai mai purion yw i ni adgofio ein hunain ar droion fod cymdeithas yn Rwsia wedi ei hadeiladu ar egwyddorion sydd yn hanfodol wahanol i'r egwyddorion sydd yn llywod-

raethu cymdeithas mewn unrhyw wlad arall dan haul. Beth feddylir yn ein plith heddiw am y berthynas rhwng Comiwnistiaeth a Christionogaeth? Gwerth ydyw sylwi ar yr hyn sydd gan y Dr. Stanley Jones (awdur enwog "The Christ of the Indian Road") i ddweyd yn ei lyfr newydd, "Christ and Communism". "Mae Cristionogaeth," meddai'r awdur, "ar ei ffordd i wynebu argyfwng, efallai ei hargyfwng terfynnol. Mae digwyddiadau yn arwain i fynu i benderfyniad byd-eang. Rhaid i'r genhedlaeth hon, neu y nesaf, benderfynu rhwng Comiwnistiaeth faterol, atheistaidd, a Theyrnas Dduw ar y ddaear."

Dywedir fod Rwsia a'i bryd ar ennill goruchafiaeth dros y byd i gyd mewn meddiannau a gwrtaith, ac mae wedi gwneyd cynnydd anhygoel bron i'r cyfeiriad yma mewn ychydig o flynyddoedd. Cyfrinach y cynnydd yma yw y dilewyd egwyddor cystadleuaeth o gymdeithas. Cydweithrediad (gorfodol, efallai i raddau helaeth) sydd yn rheoli cymdeithas yn Rwsia heddiw. Dywed Dr. Jones y gwnaiff Cristionogaeth ffitio i mewn yn well i gymdeithas gydweithredol na chymdeithas gystadleuol. Dyna paham, efallai, mae yn dyfynnu gyda chymeradwyaeth eiriau rhywun,—"Gall Rwsia eto fod yn groth i'r fath o ail-enedigaeth o'r ysbryd Cristionogol a rydd arweiniad newydd i'r holl fyd gwareiddiedig." Ond mae Dr. Jones yn dweyd yn y diwedd, mai'r peth i'w ofni fwyaf mewn cymdeithas o'r fath a geir yn Rwsia yw fod yr unigolyn yn colli ei ryddid. "Yn y peth hwn, mae Teyrnas Nefoedd yn ddigon gwell, a'i rhyddid i bob calon ddynol."

* * *

Dyma rai o'r pethau ddywedwyd yma ac acw yn ystod y mis:

*Athro yn America*: "Mae un o bob chwech o boblogaeth y byd ar y plwyf."

*Dr. Charlotte Buhler*: Yr un agwedd o ddatblygiad plentyn adewir i ddamwain yw ei gymeriad."

*Esgob Lerpwl*: "Yn anffortunus ni ellir dweyd fod aelodau yr hil ddynol yn naturiol yn drugarog."

*Dr. Eric Waterhouse*: "Dylai gallu dweyd ein bod wedi gwneyd y goreu fedrwn yn onest, ein harwain i sylweddoli nad yw o wahaniaeth dan yr amgylchiadau beth mae eraill yn feddwl am ein goreu. Ni allwn feio ein hunain am ddim ond am fethu gwneyd ein goreu."

* * *

Yr oedd dyn du yn ceisio esbonio i'w gyfaill beth mae hyawdledd yn olygu. "Mae fel hyn," meddai, "pe byddwn ni yn dweyd fod du yn wyn, ffolineb fyddai hynny; ond pe byddwn yn dweyd fod du yn wyn ac yn rhuo fel tarw ac yn pwnio y bwrdd a'm dyrnau, hyawdledd fyddai hynny."

# 1910—1935.

"Os ydych yn bump-ar-hugain oed, yr ydych wedi byw drwy'r chwarter canrif mwyaf rhyfeddol er dechreu amser." Dyna frawddeg o un o'r cylchgronau Seisnig.

Fel y gwyddis, yr ydym wedi bod yn dathlu Jiwbili esgyniad y Brenin Sior y Bumed i orsedd Prydain Fawr. O feddwl am hanes y pum mlynedd ar hugain hyn nid hawdd yw ameu gwirionedd y frawddeg ddyfynwyd.

Ar waethaf ofn a bygwth rhyfel, ar waethaf llawer o dlodi, ar waethaf dros ddwy filiwn allan o waith, bu'r wlad yn dathlu'r Jiwbili gyda diolchgarwch gorfoleddus. Beth yw ystyr y llawenydd mawr yma? A ellir cyfiawnhau y cyffro, y gorymdeithio a'r banerau, y canu a'r bloeddio yma i gyd? Beth ddigwyddodd yn y chwarter canrif hyn i beri i'r miliynnau i anghofio eu gofidiau i gyd am ennyd fach, a chyduno mor frwdfrydig i longyfarch eu brenin ac i ymfalchio yn hanes a chyflwr eu gwlad?

Yn ystod y pum mlynedd ar hugain hyn, digwyddodd y rhyfel mwyaf ofnadwy yn hanes y byd, a ninnau wedi dioddef yn enbydus,—wedi dioddef yn ystod y rhyfel a dioddef wedi hynny.

Un o effeithiau digamsynied y rhyfel oedd i "wladgarwch" fynd yn llai ei fri. Amheuid o ddifrif a oedd gwladgarwch yn gymaint rhinwedd ag y tybid unwaith ei fod. Dadleuid mai gwladgarwch penboeth a'n harweiniodd i ryfel, ac y gwnai gwladgarwch ein harwain i ryfel eto. Ond dyma don o glodfori di-drai ar frenin a gwlad wedi ysgubo drosom, a neb bron yn beiddio dweyd gair croes.

Nid oes angen dweyd mai nid addoliad dall o berson y brenin sydd i gyfrif am frwdfrydedd y Jiwbili. Er i ni gydnabod i'r eithaf rinweddau personol y brenin, er i ni gydnabod ei ddoethineb, a'i hynawsedd, a'i foesoldeb di-lychwin, ni allai'r oll o'r pethau hyn ohonynt eu hunain, gynneu y fath goelcerth o lawenydd a moliant. Ni ellir ameu nad mynegiant yw cyffro a brwdfrydedd y Jiwbili o falchder cenedl yn ei bri a'i gogoniant fel cenedl. Mynegiant gawsom fod y mwyafrif mawr ohonom, ar waethaf popeth bair ofid i ni yng nghyflwr ein gwlad, yn teimlo mai hanes gwir ogoneddus ac anrhydeddus fu ein hanes yn ystod y chwarter canrif aeth heibio.

Adeg gyffrous mewn llawer ystyr oedd adeg esgyniad Sior y Bumed. Adeg y frwydr chwerw rhwng Ty'r Arglwyddi a Thy'r Cyffredin oedd hi. Cofiwn i'r frwydr gael ei hennill i Dŷ'r Cyffredin yn fuan iawn wedi dechreu gyrfa y brenin newydd.

Diddorol yw cofio hefyd mai ym mlynyddoedd cyntaf y chwarter canrif yma y pasiwyd Deddf Pensiynau yr Hen Bobl, ac hefyd

Deddf Yswiriant Iechyd, a Deddf Yswiriant y Diwaith. Nid hawdd heddiw, efallai, sylweddoli effaith chwyldroadol y deddfau hyn ar gyflwr gwerin.

Deddf arall bwysig yn hanes Cymru oedd Deddf Datgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru, a hithau yn sicrhau cydraddoldeb i'r enwadau yng Nghymru, cydraddoldeb na enillwyd eto yn Lloegr.

Digwyddiad alaethus tua'r amser yma oedd suddo y Titanic yn yr Iwerydd.

Yn fuan iawn, daeth y Rhyfel Mawr, a chyfnod na ellir ei anghofio gan bwy bynnag brofodd o drueni a chwerwder a phruddder y blynyddoedd tywyll hynny. Nid oes un dyn yn ei iawn bwyll fedr lawenhau nac ymffrostio am unpeth cysylltiedig â'r rhyfel, ond o edrych o honom yn ôl drwy niwl y blynyddoedd, fe'n synnir am ambell i foment fod y fath drychineb wedi amharu cyn lleied ar fywyd cenedl. Er cofio ohonom am gynhaeaf alaethus magnelau a nwy a thwymyn a phla, er cofio ohonom am fileindra a bryntni digyffelyb—er cofio ohonom am dlodi a dioddef y miliynnau, fe'n synnir o feddwl i ni fedru ail ddechreu byw a seiliau ein gwareiddiad cenedlaethol heb eu hysgubo ymaith yn llwyr. Fe'n synnir i ni gael ein hachub rhag trychineb ychwanegol chwyldro gwaedlyd. Fe'n synnir o feddwl i ni fedru dal gafael ar ein ffydd mewn gweriniaeth, a gweriniaeth wedi diflannu bron dros yr oll o gyfandir Ewrop.

Ac onid dyma y peth sydd yn wir werth llawenhau am dano ar yr achlysur arbennig yma. Os mai ystyr gorfoledd y Jiwbili yw fod cenedl fawr yn ymfalchio am fod y peth sydd yn wir nodweddiadol o'i phobl, sef eu hysbryd gwerinol, wedi sefyll yn gadarn drwy holl ddrycin y chwarter canrif gynhyrfus aeth heibio,—os mai dyma yw ystyr gorfoledd y Jiwbili, mae i'r gorfoledd achos digonol. Y peth gwerthfawrocaf a feddwn yw ein rhyddid ; cadwasom afael ar hwn i fesur helaethach nag un genedl dan haul ; am hyn, beth bynnag, gorfoleddwn heb ofn ac heb gywilydd.

Nid yn unig yr ydym wedi gafael yn ein ffydd mewn rhyddid ; nid yn unig yr ydym wedi parhau yn ein teyrngarwch i ddelfryd rhyddid, ond gwnawd llawer i ehangu terfynnau rhyddid ymarferol. Rhoddwyd y bleidlais i fenywod ; mae ganddynt hawl i eistedd yn y Senedd, ac ar gynghorau lleol, ac ar feinciau yr ustusiaid ; cyrhaeddwyd mesur helaeth o wir gydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Rhoddwyd mesur helaethach o annibyniaeth i'n tiriogaethau dros y môr ; bydd y gair " Ymherodraeth " yn fuan iawn yn ddiystyr. Os oes gogoniant yn perthyn i ni o gwbl, yn sicr dyma goron gogoniant ein cenedl, ein teyrngarwch parhaol a chynyddol i ryddid, a hyn mewn byd lle mae rhyddid yn destun gwawd drwy'r gwledydd a gweriniaeth yn ddiystyr.

O sôn am broblemau gyfrifir fel rheol ymysg y problemau politicaidd ni ellir peidio sôn am un cyfnewid mawr ddaeth dros bolitics yn ein gwlad. Gwelodd y blynyddoedd hyn ddiflannu bron o'r Parti Rhyddfrydig. Ar ddechreu ein cyfnod nid oedd sôn bron am Barti Llafur, ond buan fu ei gynnydd nes iddo ddod ers blynyddoedd y parti ail gryfaf yn y wlad, a dal awenau'r llywodraeth fwy nag unwaith.

Anodd gorbwysleisio pwysigrwydd y datblygiad hwn ; ac yn fwy pwysig efallai na chynnydd y parti ei hun, yw'r ffaith i egwyddorion y blaid dreiddio yn helaeth drwy y ddau barti arall, nes gweled ohonom Lywodraeth a'r grym yn " Geidwadol " yn pasio mesurau sydd yn ymgorffori llawer o egwyddorion Sosialaeth bur.

Mae effaith y datblygiad cyffredinol yma i'w gweled ar bob llaw,—mewn cyflogau ac oriau gwaith, ym myd addysg, ac mewn gwelliantau cymdeithasol o bob math. Anodd yw peidio meddwl y bydd yr hen enwau partiol yn fuan iawn yn ddiystyr.

Ond nid cyfnewidiadau politicaidd o bell ffordd fu yr elfennau mwyaf dylanwadol yn y trawsnewid fu ar fywyd cymdeithasol. Pwy all fesur dylanwad y dyfeisiadau chwyldroadol fu yn nodweddion mor amlwg o'r cyfnod. Anodd yw sylweddoli fod popeth bron sydd yn wir nodweddiadol o fywyd gwareiddiedig heddiw wedi dyfod i fodolaeth, neu o leiaf wedi dyfod i gyrraedd y lliaws yn ystod teyrnasiad y brenin presennol. Y modur, yr aeroplane, y sinema, y diwifr, i enwi ond y pethau mwyaf. Bu ymenydd dyfeisgar dyn yn brysur yn wir yn trawsffurfio ein dull o fyw drwyddo draw, ac er i ni achwyn yn aml fod bywyd wedi mynd mor brysur nes ein llethu a'n dyrysu, pwy all ameu mai er dyrchafiad dynoliaeth y bydd y pethau hyn i gyd maes o law o ddarganfod o honom sut i wneyd y defnydd goreu o honynt.

Anodd yw rhoddi crynodeb deilwng o'r digwyddiadau a'r cyfnewidiadau mewn cyfnod yn yr hwn y bu cynnydd mor amlwg a chyflym yn y gwybodau i gyd.

Bu cynnydd aruthrol mewn gwyddor feddygol. Bu galanas y rhyfel yn gyfrifol i raddau helaeth am y cynnydd yng ngwybodaeth a chywreinrwydd y llaw-feddyg, a gwnawd darganfyddiadau pwysig gan fyfyrwyr ac archwilwyr mewn perthynas i achosion llawer o glefydau arferent gael eu cyfrif yn anwelladwy. Y mae pobl heddiw yn byw yn henach o gryn lawer ar gyfartaledd na phobl ddechreu'r ganrif, a hyn yn arwyddo safon uwch o iechyd drwy'r wlad.

Nodwedd arall fu y cynnydd yn safon addysg y genedl,—gwell ysgoldai, gwell athrawon, ac agwedd hollol wahanol tuag at addysg ymysg pob dosbarth o ddynion. Caiff y plant heddiw lawer gwell triniaeth a chyfle, yn gorfforol, meddyliol ac ysbrydol na phlant ddechreu y ganrif.

Ar waethaf yr hyn ellid ddisgwyl hefyd ar ôl y terfysg cymdeithasol gyffrowyd gan y rhyfel bu cryn leihad ar ddrwgweithredu, ac yn fwy pwysig na hynny, gwelwyd agwedd newydd tuag at y drwgweithredwr, yn enwedig tuag at droseddwyr ieuanc. Gwelwyd cydnabod i fesur mai amcan cosb ddylai fod gwneyd dinesydd defnyddiol o'r troseddwr, ac nid dial arno nes ei chwerwi a'i wargaledu nes gwneyd ohono elyn parhaol i gymdeithas. Yr ydym ymhell o fod yn wir resymol a Christionogol yn y mater hwn ond bu cynnydd amlwg.

Bu'r cynnydd mewn sobrwydd yn wir nodedig. Anaml y clywir llawer o sôn heddiw am " achos dirwest ". Nid yw hyn yn golygu fod y gwaith i gyd wedi ei wneyd ond cydnabyddir yn gyffredin nad yw meddwdod yn un o'r drygau cymdeithasol pennaf heddiw.

Nodwedd wir annymunol fu'r cynnydd dirfawr mewn gamblo. Dyma, o bosibl, y drwg cymdeithasol mwyaf heddiw. Mae gwir angen am fudiad byw ac egniol i ymgodymu â'r perigl yma. Mae'r drwg yn amlycaf ymysg y di-waith, ond mae hynny am fod y canlyniadau truenus yn fwy amlwg lle bo'r adnoddau brinnaf. Clywwyd llawer yr wythnos hon am yr esiampl o ddirwest roddwyd gan y brenin ar adeg y rhyfel. Dyma gyfle godidog i rai o uchelwyr dyngarol y wlad i roddi esiampl ac arweiniad wnai gynorthwyo i chwynnu y tyfiant afiach hwn allan o fywyd y genedl.

O daflu golwg frysiog fel hyn dros helyntion chwarter canrif gwelir yn amlwg fod y pethau rydd gyfle i ddynoliaeth i greu diwylliant a gwareiddiad gwir ogoneddus wedi cynyddu yn fawr, ond *cyfle* i dyfu i gyfeiriad y gymdeithas ddelfrydol rydd y gwelliantau a'r cyfnewidiadau mwyaf nodedig ar y goreu. Gall dyn o golli golwg ar y wir ddelfryd ddefnyddio bron pob un o fendithion y blynyddoedd rhyfeddol hyn i bwrpasau wnai ddwyn oddiamgylch ei ddinystr ei hun. Gwelwyd cam-ddefnyddio dybryd eisoes ar lawer o bethau.

Ond ni ellir atal cynnydd gwybodaeth a dyfais, ac ynfydu fyddem o ddymuno gwneyd hynny. Dymunwn yn hytrach am weledigaeth glir o'r ddelfryd i wasanaeth yr hon y dylid cysegru holl egnion corff, meddwl ac enaid, ac am y nerth i fod yn ffyddlon i'r weledigaeth fel y byddo popeth a wnawn er gogoniant Brenin y Brenhinoedd.

---

## Y DIWIFR.

TANNAU celf yn tynnu cân—yn ebrwydd
Drwy'r wybren gan drydan ;
Yn ddyddiol mae'n ymddiddan—
Eilia'n glir alawon glân.

*Frondeg.* EVAN DAVIES.

# Brwdfrydedd.

CYFNOD cythryblus yw'r cyfnod presennol—gorseddau'n dymchwelyd, cyfundrefnau a chynlluniau'n troi yn fethiant, drwgdybiaeth ac ofn yn arteithio'r gwledydd, a nerfau'n tynnu nes peri i ni sefyll ar flaen ein traed a gofyn—Beth nesaf? Yn naturiol, clywir am ryw fudiad, neu blaid, neu gynllun newydd yn dod i fodolaeth yn barhaus, gyda'r amcan o geisio gwneud trefn o'r annhrefn.

Dyna'r Comiwnistiaid yn Rwsia, a'r Naziaid yn yr Almaen, a'r Fasciaid yn yr Eidal, a'r Black Shirts, a'r Brown Shirts, a bron pob lliw o grysau yn y gwahanol wledydd, a rhyw Hitler yn codi fan yma, a rhyw Fusolini yn codi fan draw, ac yn chwythu bygythion a chelanedd nes dychrynu eu deiliaid. Yn wir, y mae'r Papur Dyddiol bron gyrru dychryn i'r galon y dyddiau yma.

Wel, ynte, beth am lwyddiant y mudiadau yma sydd yn codi fel bwyd y barcud ar hyd y gwledydd?

Dibynna llwyddiant pob mudiad ar fesur y diddordeb a'r brwdfrydedd a enyna yng nghalon y werin. Heb frwdfrydedd, ansicr ydyw pob cynnydd. Felly y mae brwdfrydedd yn elfen wir bwysig.

Beth ydyw brwdfrydedd yn ei hanfod ynte?

Onid iaith calon yn siarad mewn gair a gweithred ydyw?

O ganlyniad, nid yw'n dilyn pob brwdfrydedd bob amser yn elfen ddyrchafol, oblegid os bydd y galon yn caru pethau gwael ac isel, amhosibl ydyw iddi deimlo brwdfrydedd at y pur a'r dyrchafol.

Pwy na chlywodd, ryw dro neu gilydd, ymdrechfa'r bêl-droed, neu ornest y paffwyr ar y diwifr, dyna engraifft o frwdfrydedd yn ei eithafion. Mae'r bloeddio a'r ysgrechian yn fyddarol.

Ar adeg yr "ornest fawr" fel y'i gelwid, yn Wembley, beth amser yn ôl, yr oedd y brwdfrydedd a'r bloeddio mor ddychrynllyd, nes yr ofnwn bob munud glywed tô Wembley yn mynd yn ddeilchion, ac yn cael ei hyrddio i'r pedwar gwynt, a braidd na ddisgwyliwn glywed rhai o'r briwsion yn rhuthro dros y wifren ac yn disgyn yn bendramwnwgl i'r gist ynghornel y gegin.

Pa beth, tybed, sydd mewn paffio i greu'r fath frwdfrydedd?

Poenus ydyw'r meddwl fod dynoliaeth mor hwyrfrydig i symud i gyfeiriad gwareiddiad, a cheisio tyfu allan o'r elfen ymladdgar, yr hon sydd yn nodweddiadol o'r anwariad.

Ni chredaf fod neb ym Mhrydain heddiw nad yw yn teitlo'i hun yn Gristion. Dywedodd Crist—"Os dy elyn a'th darawa ar dy rudd ddeheu, tro y llall iddo hefyd."

Gristnogion, ble mae'r cysondeb?

Nid yw brwdfrydedd ond melldith yn yr engraifft yma.

Yna, meddylier am y llofrudd, a'r lleidr, a'r plant-leidr, mae'n rhaid eu bod hwy yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'r gwahanol weithredoedd erchyll a gyflawnant, neu ni fuasent mor fedrus gyda'r anfadwaith. Buasai yn well er lles cymdeithas pe na feddai dihyrod o'r fath ar un gronyn o frwdfrydedd.

Wel, mi gredaf fod yr engreifftiau uchod yn ddigon i brofi y gall brwdfrydedd fod yn felldithiol o'i gam-osod, ond nid yw ei gymhwyster yn terfynu gyda'r agwedd yma, eithr y mae iddo agwedd eangach a godidocach, a diolch am hynny. Tua deufis yn ôl buom yn dathlu Gwyl Dewi Sant unwaith yn ychwaneg, ac iechyd i galon pob Cymro gwlatgar oedd clywed yr hwyl a'r brwdfrydedd a feddiannai edmygwyr Dewi, a phlant Gwalia, tu yma a thu draw i'r Iwerydd.

O fore glas hyd wyll y nos,
  Alawon Cymru Wen
Adseinient lwybrau pant a bryn
  Dros wifrau fry uwchben.

Yn sŵn y môr, yn si y gwynt
  Sant Dewi oedd y tant,
A chalon Cymru gurai'n gynt
  Wrth glywed mawl ei phlant.

Ond na feddyliwn gwna un Wyl
  Lwyr gynnal gwladol dân,
Ein dyddiau oll rhown gyda hwyl
  I grefydd, moes, a chân.

Yn cyd-redeg â'r ŵyl hon yr oedd gŵyl arall, sef Gŵyl y Llyfrau Cymreig. Pa faint o gefnogaeth gafodd hon tybed? Yn ôl tystiolaeth un llyfrwerthwr, beth bynnag, ni chafodd fawr o gefnogaeth.

Nid digon yw canu am Sant, a chlodfori breintiau y wlad; help sylweddol a hyrwydda flaenfynediad cenedl. Nid gwiw i un genhedlaeth geisio byw ar draddodiadau'r gorffennol, gan nad pa mor odidog bynnag y byddont.

Y mae cyfnodau yn gwahaniaethu yn eu harferion a'u harddull, ac y mae angen llenyddiaeth addas i gyfateb â phob cyfnod, ond pa ddiben ydyw ysgrifennu a chyhoeddi llyfrau pan nad oes neb yn eu prynu?

Atgofir ni am ffermwr, i'r hwn y gadawyd fferm dda ar ôl ei dad, yn dringo i'r bannau yn y Gwanwyn, i orfoleddu, a chyhoeddi

ei lwydd i'r byd, gan esgeuluso trin y tir a hau'r hâd ar gyfer y cynhaeaf, yn y dyffryn islaw.

Dyledswydd y ffermwr yw gwella ei fferm, a'i gwneud yn amgenach etifeddiaeth ar gyfer y genhedlaeth ddilynol, a dyledswydd pob cenhedlaeth ydyw cyfrannu rhyw ddelfrydau at ystôr y tadau.

Mae ychydig frwdfrydedd ynmarferol yn werth llawer o frwdfrydedd mympwyol.

O daflu golwg dros gymdeithas heddiw, ni all y llygad lai na chanfod ôl cariad brawdol yn ei gwlitho, er gwaethaf ffaeleddau dyn. Mae cyfleusderau addysg yn well heddiw nag y buont erioed, ac y mae yr un siawns gan y tlawd a'r cyfoethog i ddringo ysgol gwybodaeth. Mae mwy o sylw yn cael ei dalu i ddeddfau iechyd hefyd. Gwelir tai newydd yn cymryd lle'r hen fythynnod afiach, ac y mae pob tref yn llunio rhyw fath o barc cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i'w phobl i fwynhau'r awyr iach.

Gwelliantau yn dilyn ymdrechion dyngarwyr brwdfrydig yw y rhai hyn, ac y maent yn Gristionogol yn eu hanfod, oblegid prif arfaeth Crist oedd dyrchafu dynoliaeth yn ei holl agweddau. A phwy erioed deimlodd fwy o frwdfrydedd dros egwyddorion Teyrnas Cariad nag Efe.

Nid yw brwdfrydedd y Cymro byth yn oeri tuag at yr Eisteddfod, ac nid yw'n debig o wneud hynny os na ddaw'r llanw Seisnig i ysgubo'r hen iaith dros y bwrdd ; dyna'r perigl heddiw, yn enwedig yn ein trefi. Os oes rhywbeth yn mynd i gadw'r llanw draw, y mudiad newydd poblogaidd "Urdd Gobaith Cymru" ydyw. Diolch am dano. Gobeithio yr ymestynna'r brwdfrydedd tuag ato o genhedlaeth i genhedlaeth, ac os cedwir ei seiliau ar gariad a heddwch, ni raid ofni y try'r brwdfrydedd yn llosgfrydedd, a thanio ar ddim ond ar luoedd Satan.

Os am ennill gwir anrhydedd
  Ddeil ei phraw yng nghlorian Duw,
Rhown ein serch a'n holl frwdfrydedd
  Ar ddyrchafu dynol ryw.

*Llanelli.* A. Rees.

# Priodas.

Ebrill 9, yng Nghapelyfadfa, Mr. JOHN HOPKIN, Deri, Bargoed â Miss MAY EVANS, Penrhiw Talgarreg. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a'r Cofrestrydd. Dymunwn iddynt bob daioni.

# Cyrddau y Pasg.

YNG Ngalltyblaca y cynhaliwyd rhain, a nos Fawrth dan arweiniad y Parch. Lewis Williams cafwyd agoriad ardderchog yn ei symlrwydd gan y Parch. Marles Thomas. Mynegai ef am y " Porth " a charai iddo fod yn dlws ac yn groesawus, lle dymunol i aros ynddo ac mewn gobaith. Meddyliais am bwysigrwydd y fan a'r lle, a sut i gychwyn. Porth i'r deyrnas oedd ganddo. Ni eir iddi drwy ddiofalwch.

Prynhawn ddydd Mercher, â'r Parchn. J. D. Jones a T. L. Jones yn pregethu, bwriwyd y rhwyd i'r dyfnder. Yr oedd y ddau o ddifrif ar eu goreu, ac yn ymdrin â phynciau byw.

Nos Fercher cafwyd pregeth yn Saesneg gan y Parch. E. Shirwell Price o Abertawe, a gresyn na fedrai bregethu yn Gymraeg. Yr oedd yn ymdrin â gwreiddiau ein crefydd, ac i raddau pob crefydd arall serch hynny. Soniai am yr " Indwelling God ", a cheisiai am ffordd i fynegu'r ffaith yn y bywyd ymarferol.

Y Parch. E. R. Dennis oedd i'w ganlyn ond yn anffodus, a Mr. Dennis yn bresennol a phawb yn falch o'i gwmni, a phopeth arall ganddo ar gyfer y gwaith, 'doedd ganddo ddim llais. Cymerwyd ei le ar fyr rybudd gan y Parch. E. O. Jenkins, ac fe awgrymodd yn ei ffordd arferol dda y gellid adnabod dyn oddiwrth y pethau yr hoffa eu cofio. Fe'n atgofiodd o'r ysbrydoliaeth i fyw drwy gofio pethau da.

Arweiniwyd yng nghyfarfod y prynhawn gan y Parch. E. O. Jenkins ac yn yr hwyr gan y Parch. T. O. Williams.

Ar ôl y gwynt a'r glaw ddiwedd yr wythnos, cafwyd tywydd dros y cyrddau nid annhebig i ganol haf. Hyfryd oedd gweld cynulliadau mor lluosog, a gwnaeth aelodau'r gynulleidfa eu gwaith yn dda i gwrdd ag angenrheidiau'r corff. Rhodd Mrs. Jones, Y Bryn, oedd y cig, a rhodd Mrs. Evans, Maesymeillion oedd y nifer newydd o'r llestri tê.

Peth newydd yn hanes diweddar Undodiaid Sir Aberteifi oedd y cwrdd gweinidogion a gynhaliwyd prynhawn ddydd Mawrth ar wahoddiad y Gweinidog. Mewn cwrdd o'r fath gellid ymdrin wyneb yn wyneb â phynciau llosgawl ac ymarferol, ac mae iddo'r gwerth arall o ddwyn y Gweinidogion i gyffyrddiad mynwesol â'i gilydd.

S. E. BOWEN.

## PWYLLGOR Y PASG.

CYNHALIWYD hwn yng Ngalltyblaca fore Mercher, Ebrill 24, a'r Llywydd, Mr. Thomas Davies, Capelybryn yn y gadair. Cafwyd arwyddion amlwg yn ystod y bore fod llawer o'n pobl yn cymeryd diddordeb mawr ym mywyd a gweithrediadau'r Gym-

deithas. Wedi darllen cofnodion y Pwyllgor blaenorol cafwyd sylwadau buddiol iawn gan y Trysorydd ar y safle ariannol.

Rhoddodd amcan gyfrif o'r swm fydd yn eisiau i gyfarfod gofynion y flwyddyn a pha swm ddisgwylir oddiwrth bob cynulleidfa i gyfarfod y treuliau. Diolchwyd yn gynnes iddo am y drafferth yr aeth iddo ynglŷn â hyn ac i annog y cynulleidfaoedd i gasglu ym mis Mai y symiau a ofynnir ganddo.

Etholwyd yr Ysgrifennydd i gynrychioli'r Gymdeithas ar Gyngor y "General Assembly" am y flwyddyn.

Pasiwyd i dalu 5s. y tro am bob cynrychiolydd i Gyrddau Blynyddol y "General Assembly" os cwyd galw am wneud hynny.

"Papur Gwyn y Llywodraeth ar Arfogaeth": Pasiwyd fod penderfyniad cryf i'w ddanfon i'r awdurdodau ar y mater yma ac fod Golygydd yr YMOFYNNYDD a'r Ysgrifennydd i fod yn gyfrifol am ei eiriad.

Derbyniwyd gwahoddiad gynnes o Gapelybryn i gynnal y Cyfarfodydd Blynyddol yno.

Codwyd mater pwysig arall. Gan fod yr amser wedi ehedeg pasiwyd fod y Parch. T. O. Williams, M.A. a'r Ysgrifennydd i gario allan ddymuniad y Cyfarfod ynglŷn âg ef.

Ar gynygiad y Parch. Lewis Williams cytunwyd ein bod yn dilyn yr hen arferiad o argraffu anerchiad y Llywydd.

E. O. JENKINS.

# Marwgofion.

CHWEFROR 2, 1935, wedi dihoeni'n hir, bu farw RACHEL JONES, gweddw y diweddar John Jones, Caeronnen House, New Street, Llanbedr, yn 75 mlwydd oed. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers blynyddoedd lawer. Gwan o gorff ydoedd ac yngafael afiechyd beunydd ond yr oedd yn wrol a siriol yn wyneb y cyfan. Gwraig dawel, didwrw ydoedd, ffyddlon i'w hargyhoeddiadau a ffyddlon hyd y diwedd. Ni fedrid troi i dŷ a chroeso mwy ac yr oedd bob amser mor siriol. Ehedodd ymaith fel pe bai wedi crino. Claddwyd ym mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd gan gurad y Plwyf, y Parch. D. Evans, Cwmiago a'r Gweinidog. Gadawodd dair merch a mab, brawd a llu o berthynasau i alaru o'i cholli ac y mae'n cydymdeimlad yn arbennig gyda'r ddwy ferch a wnaeth gymaint drosti yn ei chystudd hir.

DYDD Sul, Mawrth 31, bu farw Miss PHYLLIS GRIFFITHS, 14, Clive Street, Trecynon, yn 22 oed. Nid oedd hi wedi bod yn gryf iawn erioed, ac er ei bod wedi gwella i raddau helaeth y flwyddyn ddiwethaf, eto daeth y diwedd yn sydyn iawn. Dynes hawddgar a serchus dros ben ydoedd ac yn aelod ffyddlon yn yr Hen Dŷ Cwrdd ac yn yr Ysgol Sul yn ôl ei nerth a'i hiechyd. Teimlir hiraeth mawr ar ei hôl a chyflwynwn i'w rhieni a'i brodyr ein cydymdeimlad dwysaf. Claddwyd yn y fynwent gyhoeddus dydd Iau, Ebrill 4; a gwasanaethwyd gan y Parch. Cynog Williams (B) a'r Parch. E. R. Dennis.

Yr 8fed o Ebrill, yn 35 oed, bu farw DANIEL JONES, annwyl fab Thomas ac Anne Jones, Pantydderwen, plwyf Llanbedr, ar ôl cystudd caled am tua deufis. Nis bendithiwyd â chorff cryf, eithr er na fu'n holliach trwy'r gaeaf, eto cymharol fyr a fu ei gystudd. Tua deufis yn ôl, claddwyd ei chwaer Sophia ; a thybir i'r hiraeth a deimlodd o'i cholli fenu arno, ac ni chododd o'i wely wedi hynny. Er y carai fywyd ac yr erfyniai am adferiad, eto wynebodd y diwedd yn amyneddgar. Heblaw tad a mam, gadawodd mewn galar o'i golli ddwy chwaer, brawd, neiaint, ynghyd a chylch eang o berthynasau. Ei rieni a wêl ei eisiau fwyaf ; gyda hwy y cartrefai, a dymunol iawn iddynt oedd ei gwmni, oblegid yr oedd o anian hynaws. I'w gyfeillion lluosog, hefyd, hynod hoff ydoedd. Cydymdeimlir yn fawr â'r teulu yn eu colledion mor agos i'w gilydd. Caffent nerth yn ôl eu hangen. Y dydd Gwener dilynol, hebryngwyd ei weddillion i orffwys ym medd ei chwaer ym mynwent Capelygroes, y cynhebrwng yn gyfyngedig i berthynasau a chymdogion. Darllenwyd yn y tŷ gan y Parch. D. J. Jones, a gweddiwyd gan y Parch. D. Evans ; darllenwyd yn y capel a gweddiwyd ar lan y bedd gan y gweinidog, a thraddodwyd anerchiad byr yn y capel gan y Parch. D. Evans.

# Nodion yr Eglwysi.

LLWYNRHYDOWEN.—Nos Lun, Ebrill 8, cafwyd "Social" lwyddiannus iawn yma o dan nawdd Urdd y Benywod. Rhoddwyd y Tê a'r pethau arderchog eraill gan Mrs. Davies, Dewi Villa a Miss Griffiiths, Rhydowenfach a chafodd yr oll o'r derbyniadau fynd i Drysorfa'r Urdd. Diolch yn fawr iddynt. Er fod yr hin dipyn yn arw daeth y ffyddloniaid ynghyd yn lled gryno a chafwyd noson ddiddorol. Talwyd y diolchiadau arferol gan Miss Jones, Gelliaur a Miss Jones, Gellifaharen.

TRYSORFA'R GYMDEITHAS.—Yn ôl rheolau newydd y Gymdeithas disgwylir ar y cynulleidfaoedd i wneud eu casgliadau at y Drysorfa ym mis Mai ymhob blwyddyn a'u gyrru'n union deg i'r Trysorydd. Yn ôl yr un rheolau rhydd y Trysorydd wybod i bob cynulleidfa y swm ddisgwylir oddiwrthi i gyfarfod a'r gofynion am y flwyddyn. Bydd y swm, o bosibl, ychydig yn fwy nag a arferid ei gasglu ond os syrthia pob cynulleidfa i fewn â'r drefn hon bydd y safle ariannol wedi ei diogelu ac ni chlywir sôn am ddyled mwy.—E. O. Jenkins, *Ysg.*

CYMANFA GANU SIR FORGANNWG.—Cynhaliwyd y Gymanfa hon yn y Graig, Trebanos, ar ddydd Llun Pasg, fel arfer. Gofid i bawb oedd fod yr arweinydd penododedig, Mr. George Thomas, Treorci, yn methu bod yno oherwydd afiechyd. Hyderwn y caiff wellhad buan. Arweiniwyd yn ei ffordd ddeheuig arferol gan Mr. Henry Morgan, Trebanos ; Mr. I. E. Hopkins, Trebanos oedd yr organydd. Llywyddwyd yn y boreu gan Mr. H. Williams, Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr ; yn y prynhawn gan Mr. Taliesin Griffiths, Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, ac yn yr hwyr gan Mr. John Hopkins, Trebanos. Yr oedd nifer dda yn bresennol a chafwyd canu hwylus drwy'r dydd. Gwelwyd nifer o aelodau Urdd y Benywod Sir Aberteifi yn bresennol, ynghyd â'r Parch. Lewis Williams. Deallir fod caîs i gael ei wneyd i uno â Sir Aberteifi yn y Gymanfa Ganu y flwyddyn nesaf.

[*Oherwydd diffyg gofod, bu raid cadw drosodd hyd y rhifyn nesaf ddwy Farwgof, rhai Nodion, ynghyd a Chronfa'r Bwrdd Presbyteraidd.*]

---

*J. D. Lewis a'i Feibion. Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.*

# FOUR GOOD BOOKS.

**The Unitarian Heritage.**
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post **8/-.**

**Judaism in the New Testament Period.**
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post **4/10.**

**The King who was Thirsty.**
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post **2/9.**

**Be Comforted.**
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post **1/8.**

**THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,**
**5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.**

---

**OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL**

—RHOWCH GOPI O'R—

# "PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

## ARGRAFFIAD SOLFFA.

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ... | 7 | 0 |
| Lledr ... ... ... ... eto ... | 5 | 6 |
| Lledr, ochrau Llian ... ... ... eto ... | 4 | 6 |

## ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

| | s. | c. |
|---|---|---|
| Lledr, Ymylon Aur ... ... ... ... ... | 7 | 6 |
| Rhwymiad Arbennig, eto ... ... ... ... | 15 | 0 |

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

# Cecil Jones

*F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.*

## Qualified Ophthalmic Optician, Jeweller and Silversmith

MY CONSULTING ROOM at the address below is fully equipped with the very latest appliances for the testing of eyes, and I am fully qualified to carry out this work in the most efficient and satisfactory manner possible. . . . . .

On the JEWELLERY and SILVERSMITH side of my business, I carry an up-to-date stock of WATCHES, CLOCKS, BAROMETERS, SPORTING TROPHIES, etc., all of which are offered at competitive prices. . . . . .

REPAIRS are effected on the premises, and in every department entire satisfaction is guaranteed. . . . . .

## 31, GREAT DARKGATE ST. ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.